

Polisi Aflonyddu Myfyrwyr Prifysgol Bangor

1. Datganiad Polisi

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i hyrwyddo amgylchedd diogel a chefnogol lle mae pob myfyriwr yn rhydd i ddysgu a gweithio heb ofn aflonyddu.

I wneud hyn byddwn yn:

- gweithio gyda staff, myfyrwyr, contractwyr a phartneriaid i greu dealltwriaeth o ymddygiad sy'n dderbyniol ac yn caniatáu defnydd cyfrifol o gamau disgyblu lle bo'n briodol;
- cydnabod y cysylltiad rhwng ymddygiad cyfrifol a phrofiad dysgu pleserus a cheisio hyrwyddo amgylchedd cymdeithasol y gall pawb gael budd ohono;
- cymryd ein cyfrifoldeb cyfreithiol o ddifrif i sicrhau iechyd, diogelwch a lles ein myfyrwyr, staff ac ymwelwyr gyda'r bwriad o ddarparu amgylchedd dysgu diogel, iach o ansawdd uchel.
- cydnabod bod gan staff gyda chyfrifoldebau dysgu, cefnogi a lles myfyrwyr, gyfrifoldeb hefyd i dynnu sylw at safonau ymddygiad amhriodol;
- rhoi arweiniad a gwybodaeth i staff a myfyrwyr i'w helpu i ddatblygu'r hyder i wybod pa gamau i'w cymryd os ydynt yn dod ar draws digwyddiadau o aflonyddu.

2. Pwy sy'n cael eu cynnwys yn y polisi?

Mae'r polisi yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr a staff sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd yn y brifysgol. Mae'n berthnasol boed a yw myfyrwyr ar eiddo'r brifysgol neu rywle arall ar fusnes prifysgol neu weithgareddau astudio, yn cynnwys eiddo a reolir ar ran y brifysgol gan drydydd parti (fel neuaddau preswyl).

Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i Undebau'r Myfyrwyr, sy'n gyrrff annibynnol sy'n cynnal a rheoli eu materion eu hunain yn unol â'u cyfansoddiad.

Mewn rhai sefyllfaoedd, lle gall unigolion wynebu camau disgyblu, gofynnir iddynt adael a/neu rhoddir gwybod i'r heddlu. Nid yw'r brifysgol yn dymuno i'w myfyrwyr neu ymwelwyr gael eu hystyried yn droseddwyr, ond mae ganddi ddiddordeb dilys mewn diogelu'r bobl yn y brifysgol a'i henw da ei hun rhag effaith aflonyddu.

3. **Beth a olygir wrth aflonyddu?**

Mae aflonyddu yn ymddygiad digroeso (cyswllt corfforol, ymddygiad geiriol neu aneiriol) sy'n ymwneud â rhyw, hil, tarddiad ethnig neu genedl, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, crefydd neu gredoau, oed, anabledd neu unrhyw nodweddion personol eraill sy'n cael effaith bygythiol, diraddiol, bychanol neu dramgwyddus ar yr unigolyn hwnnw. Effaith yr ymddygiad yn hytrach na bwriad y sawl sy'n ei gyflawni yw'r ffactor sy'n pennu a oedd yn aflonyddu. Gall fod yn un digwyddiad neu'n ddigwyddiadau cyson yn erbyn un neu fwy o unigolion. Mae enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol yn cynnwys y rhain ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

- cyswllt corfforol: yn amrywio o gyffwrdd digroeso i ymosodiad difrifol, ystumiau, bygwth, ymddygiad ymosodol;
- ar lafar neu'n ysgrifenedig (yn cynnwys ar-lein a chyfryngau cymdeithasol): sylwadau, awgrymiadau a chynigion digroeso, sibrydion maleisus, jôcs a thynnu coes, iaith anwedus;
- aneiriol: llenyddiaeth neu luniau anwedus, graffiti a lluniau cyfrifiadurol, ynysu neu ddiffyg cydweithredu a gwahardd neu ynysu o weithgareddau cymdeithasol.

Mae Prifysgol Bangor yn credu na ddylai unrhyw fyfyrwr orfod derbyn aflonyddu ac nad yw'n rhan arferol o brofiad myfyrwyr.

4. **Canllawiau i fyfyrwyr**

Mae gan bob myfyrwr gyfrifoldeb cyfreithiol i gymryd gofal rhesymol am eu diogelwch eu hunain ac eraill. Fel rhan o gymuned y brifysgol, mae gan fyfyrwyr gyfrifoldeb i roi gwybod am unrhyw aflonyddu maent yn ei weld.

Gall myfyrwyr sy'n profi neu'n gweld aflonyddu roi gwybod am y digwyddiad i unrhyw aelod o'r staff, ond gan amlaf rhoddir gwybod i diwtor personol, warden neuadd neu aelod o Wasanaethau Myfyrwyr. Mae'n bwysig y rhoddir gwybod am ddigwyddiadau cyn gynted ag y bo modd, a lle bo angen gweithredu i roi sylw i'r ymddygiad aflonyddu ar unwaith, dylid rhoi gwybod i'r aelod staff sydd ar gael yn fwyaf cyflym.

Mewn achosion lle nad oes angen gweithredu ar unwaith, gall myfyrwyr roi gwybod am y digwyddiadau i'w tiwtor personol, neu aelod staff y mae'r myfyrwr yn teimlo'n fwyaf cyfforddus yn mynd ato (fel aelod o'r staff dysgu, warden neuadd neu rywun yng Ngwasanaethau Myfyrwyr).

Dylai myfyrwyr roi amlinelliad i'r aelod staff o natur yr hyn maent wedi ei weld neu ei brofi. Bydd raid i'r aelod staff benderfynu a oes risg uniongyrchol i'r myfyriwr neu eraill, ac os felly, gweithredu'n briodol (gydag unrhyw gefnogaeth angenrheidiol gan eu rheolwr neu adran ddiogelwch y brifysgol) i sicrhau amgylchedd diogel i'r myfyriwr ac eraill.

Ar ôl ymdrin ag unrhyw risg uniongyrchol, bydd aelod staff yn penderfynu a oes gan y myfyriwr unrhyw ofynion uniongyrchol o ran cefnogaeth a sut mae'r myfyriwr yn teimlo y dylid ymdrin â'r digwyddiad. Efallai bod y myfyriwr eisiau rhoi gwybod am y digwyddiad (yn ddiennw os yw'n dymuno) at ddibenion monitro'n unig, heb fod angen unrhyw gefnogaeth bellach.

Gall myfyriwr ddewis trafod y digwyddiad yn gyfrinachol gydag aelod staff gyda chyfrifoldebau bugeiliol (fel eu tiwtor personol, warden neuadd neu Wasanaethau Myfyrwyr) er mwyn nodi'n fanylach sut y maent yn teimlo y dylid ymdrin â'r digwyddiad.

Os oes gan y myfyriwr bryderon uniongyrchol am ddiogelwch personol, gall ofyn i unrhyw aelod staff gysylltu â staff diogelwch y brifysgol neu'r heddlu, neu gall y myfyriwr gysylltu â staff diogelwch y brifysgol (Mewnol 333, Allanol 01248 382795) neu â'r heddlu'n uniongyrchol (galwadau brys: 999 rhai difrys: 101 neu 0300 330 0101)

5. Canllawiau i'r holl staff

Mae'n gyfrifoldeb ar holl aelodau'r staff i roi sylw i faterion aflonyddu myfyrwyr y maent yn eu gweld neu'n derbyn adroddiadau amdanynt.

Gweld Aflonyddu Myfyrwyr

Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall ymdrin ag achosion o weld aflonyddu myfyrwyr gynnwys:

- ymyrryd i wneud hi'n glir nad yw'r ymddygiad a welwyd yn dderbyniol. Gall hyn gynnwys rhoi sylw i'r iaith a ddefnyddiwyd neu roi sylw i'r weithred gorfforol sy'n achosi'r aflonyddu. Gall fod yn briodol dim ond dweud wrth yr unigolyn/unigolion i roi'r gorau i'r ymddygiad aflonyddu, neu gall fod angen dweud wrth yr unigolyn/unigolion i adael y lle oherwydd ymddygiad annerbyniol;
- gwirio i weld a yw'r myfyriwr angen cefnogaeth i symud ei hun o sefyllfa o aflonyddwch;
- cysylltu ag aelod staff uwch a/neu swyddogion diogelwch y brifysgol pan nad yw aelod staff yn teimlo'n ddiogel i roi sylw uniongyrchol i'r ymddygiad o aflonyddu maent yn ei weld.

Ymateb i Adroddiadau am Aflonyddu Myfyrwyr

Gall unrhyw aelod staff dderbyn adroddiad am aflonyddu gan fyfyrwr. Mae'n ofynnol i bob aelod staff:

1. Wrando'n ofalus a chydabod yr hyn mae'r myfyrwr yn ei ddweud, gan ofalu peidio â gwneud sylwadau personol ynghylch a ydynt yn cytuno neu beidio gyda barn y myfyrwr am aflonyddwch. Cysuro'r myfyrwr bod ganddo/ganddi'r hawl i deimlo'n ddiogel ac y bydd y brifysgol yn gefnogol.
2. Penderfynu a oes risg uniongyrchol i'r myfyrwr neu eraill, ac os felly, gweithredu'n briodol gydag unrhyw gefnogaeth angenrheidiol gan eu rheolwr neu staff diogelwch y brifysgol i sicrhau amgylchedd diogel i'r myfyrwr ac eraill;
 3. Pennu a oes gan y myfyrwr unrhyw anghenion cefnogi uniongyrchol a chyfeirio at ffynonellau cefnogaeth fel bo'r angen (<http://www.bangor.ac.uk/student-services/>).
4. Trafod gyda'r myfyrwr sut mae'n teimlo y dylid ymdrin â'r digwyddiad. Efallai bydd y myfyrwr eisiau rhoi gwybod am y digwyddiad (yn ddiennw os yw'n dymuno) heb fod eisiau i unrhyw gamau pellach gael eu gweithredu. Yn yr achos hwn, dylid llenwi [Ffurflen Monitro Aflonyddu Myfyrwyr](#) (yn ddiennw os dymunir) a'i rhoi i'r Cyfarwyddwr Cysylltiadau Myfyrwyr neu'r Uwch Diwtor (Ysgolion Academaidd), Uwch Warden (Neuaddau) neu Bennaeth y Gwasanaeth (Gwasanaethau Canolog).
5. Egluro i'r myfyrwr bod eu diogelwch uniongyrchol ac anghenion cefnogi wedi eu cyflawni, a'u bod yn deall gyda phwy y gallant gysylltu os ydynt yn dymuno trafod y digwyddiad ymhellach. Mewn achosion lle mae'r myfyrwr yn dymuno trafod gweithredu pellach, dyllid eu cyfeirio at aelod staff gyda chyfrifoldebau bugeiliol (fel eu tiwtor personol, warden y neuadd neu aelod o'r Gwasanaethau Myfyrwyr yn ôl eu dymuniad).

Os yw'r aelod staff yn teimlo bod yna gymaint o risg i'r myfyrwr neu eraill fel bod rhaid iddynt anwybyddu dymuniadau'r myfyrwr i beidio â rhoi gwybod am y digwyddiad, yna dylid egluro hyn i'r myfyrwr, a gofyn am gyngor rheolwr llinell yr aelod staff i benderfynu ar weithredu priodol i reoli'r risg neu i ddilyn camau disgyblu.

6. Canllawiau i Staff gyda Chyfrifoldeb Bugeiliol

Mae'n debyg mai staff gyda chyfrifoldeb bugeiliol fydd y prif bwynt cyfeirio i fyfyrwyr sy'n rhoi gwybod am aflonyddu neu bydd aelodau eraill o staff yn cyfeirio achosion iddynt. Mae staff gyda chyfrifoldebau bugeiliol yn cynnwys: tiwtoriaid personol, uwch diwtoriaid, wardeniaid neuaddau neu uwch wardeniaid, staff yn yr adran Gwasanaethau Myfyrwyr.

Pan fo myfyrwr yn datgelu achos o aflonyddu, dylai staff gyda chyfrifoldebau bugeiliol:

1. Sicrhau y gellir cynnal sgwrs gyda'r myfyriwr yn breifat a heb ymyrraeth. Gwranddo'n ofalus a chydabod yr hyn mae'r myfyriwr yn ei ddweud, gan ofalu nad ydynt yn gwneud sylwadau personol ynghylch a ydynt yn cytuno neu beidio gyda barn y myfyriwr am aflonyddwch. Cysuro'r myfyriwr bod ganddo/ganddi'r hawl i deimlo'n ddiogel ac y bydd y brifysgol yn gefnogol.
2. Penderfynu a oes risg uniongyrchol i'r myfyriwr neu eraill. Er y dylid parchu hawl y myfyriwr i gyfrinachedd, mewn achosion lle gall fod risg uniongyrchol i'r myfyriwr neu eraill, dylai'r aelod staff ofyn am gyngor oddi wrth uwch aelod o'r staff, swyddog disgyblu, staff diogelwch (Mewnol 333, Allanol 01248 382795) a/neu'r Heddlu (galwadau brys: 999 difrys: 101 neu 0300 330 0101) .
3. Helpu'r myfyriwr i gyrraedd at y gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.
 - Os oes ganddynt bryderon am ddiogelwch at y dyfodol, rhaid sicrhau eu bod yn deall y gallant gysylltu â staff diogelwch y brifysgol pan fyddant ar eiddo'r brifysgol neu â'r heddlu pan fyddant oddi ar y campws a sicrhau bod ganddynt y rhifau ffôn cywir fel y nodir uchod.
 - Mewn achos o ymosodiad rhywiol dylid cynghori'r myfyriwr y gall Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Gogledd Cymru roi gwasanaethau a chynghor heb fod unrhyw reidrwydd i roi gwybod am drosedd (0808 156 3658; www.amethystnorthwales.org.uk)
 - Os nad oes gan y myfyriwr le diogel i aros - cysylltwch â Swyddfa'r Neuaddau (1248 382667) neu'r Swyddfa Tai Myfyriwr (01248 382034)
 - Os yw'r myfyriwr neu aelod staff yn bryderus bod trosedd wedi ei chyflawni, dylid gofyn am gyngor gan Gwenan Hine (Pennaeth Cydymffurfio) yn y Swyddfa Gynllunio (01248 382413)
 - Rhowch wybod i'r myfyriwr am ffynonellau eraill o gefnogaeth bersonol y gallant gael mynediad iddynt yn ddiweddarach (www.bangor.ac.uk/student-services).
4. Egluro i'r myfyriwr bod eu diogelwch uniongyrchol ac anghenion cefnogi wedi eu cyflawni, ac yna amlinellu'r dewisiadau sydd ar gael i roi gwybod am y digwyddiad:

Opsiwn 1: Rhoi gwybod am y digwyddiad at ddibenion monitro ond heb unrhyw gais am weithredu pellach. Gall yr adroddiad fod yn ddiennw os mai dyna yw dewis y myfyriwr.

Gweithredu: mae aelod staff yn sicrhau bod y myfyriwr yn gwybod lle y gall cael cefnogaeth, a llenwi [Ffurflen Monitro Aflonyddu Myfyriwr](#) a'i hanfon at y

Cyfarwyddwr Cysylltiadau Myfyrwyr neu'r Uwch Diwtor (Ysgolion Academaidd, Uwch Warden (Neuaddau) neu Bennaeth y Gwasanaeth (Gwasanaethau Canolog).

Opsiwn 2: Rhoi gwybod am y digwyddiad at ddibenion monitro a gweithredu'n anffurfiol i roi sylw i'r ymddygiad er enghraifft staff yn atgoffa'r unigolyn/unigolion y rhoddwyd gwybod amdano o'r safonau ymddygiad priodol a disgwylidig.

Gweithredu: mae'r aelod staff yn llenwi'r [Ffurflen Monitro Aflonyddu Myfyrwyr](#) ac unrhyw nodiadau ychwanegol i'w trafod gyda'r Cyfarwyddwr Cysylltiadau Myfyrwyr neu'r Uwch Diwtor (Ysgolion Academaidd, Uwch Warden (Neuaddau) neu Bennaeth y Gwasanaeth (Gwasanaethau Canolog). Caiff y gweithredu cytunedig ar gyfer ymdrin yn anffurfiol â'r ymddygiad ei gytuno gyda'r Ysgol, Neuaddau neu'r Gwasanaeth, gan ymgynghori gyda'r myfyriwr sydd wedi rhoi gwybod, am y dull gweithredu cytunedig.

Opsiwn 3: Gofyn i'r digwyddiad gael ei adrodd yn ffurfiol i Swyddog Disgyblu - mae hyn yn briodol mewn sefyllfa lle bo'r myfyriwr eisiau dilyn camau gweithredu ffurfiol trwy'r brifysgol yn erbyn yr unigolyn yr adroddwyd yn ei gylch.

Gweithredu: Ni chaiff yr aelod staff geisio datrys y pryderon drwy gysylltu â'r unigolyn y gwnaed yr honiad yn ei erbyn. Gall gweithred o'r fath fod yn achos o dorri'r drefn a all ddirymu unrhyw gamau gweithredu disgyblu dilynol.

Ar gyfer Opsiwn 3, rhaid rhoi gwybod am y digwyddiad i Swyddog Disgyblu (uwch Warden os digwyddodd y digwyddiad yn y neuaddau, neu'r Cofrestrydd Academaidd os na ddigwyddodd y digwyddiad yn y Neuaddau).

Gellir cyflwyno adroddiadau ffurfiol mewn gwahanol fformatau:

- a) gan y myfyriwr yn ysgrifenedig (trwy lythyr neu e-bost);
- b) gan y myfyriwr yn bersonol (mewn cyfweiliad gydag uwch Warden, neu Gofrestrydd Academaidd neu enwebai);
- c) gan yr aelod staff sy'n ymateb yn ysgrifenedig, o ddewis mewn adroddiad wedi ei gydlofnodi gan y myfyriwr.

Bydd achosion y rhoddir gwybod amdanynt i'r Swyddog Disgyblu yn cael eu hystyried o dan yr Ordinhad Disgyblu Myfyrwyr. Dylai'r aelod staff sicrhau bod y Cyfarwyddwr Cysylltiadau Myfyrwyr neu'r Uwch Diwtor (Ysgolion Academaidd, neu Bennaeth y Gwasanaeth (Gwasanaethau Canolog) yn gwybod y gwnaed cais am weithredu ffurfiol. Gall y Gofrestrfa Academaidd (01248 382027) roi cyngor ar y drefn o dan yr Ordinhad Disgyblu Myfyrwyr.

5. Llenwi [Ffurflen Monitro Aflonyddu Myfyrwyr](#) am bob digwyddiad a adroddir fel y gall y brifysgol gyflawni ei chyfrifoldeb i fonitro lefelau o aflonyddu y rhoddir gwybod amdanynt yn y sefydliad. Mae'r broses fel a ganlyn:

- mae'r aelod staff sy'n ymateb yn llenwi [Ffurflen Monitro Aflonyddu Myfyrwyr](#) gyda nodiadau ysgrifenedig ychwanegol fel bo'r angen gan beidio ag enwi'r myfyriwr yn unol â'i dymuniad/ei dymuniad. Mae'r aelod staff yn rhoi'r cofnod i'r Cyfarwyddwr Cysylltiadau Myfyrwyr neu'r Uwch Diwtor (Ysgolion Academaidd, Uwch Warden (Neuaddau) neu Bennaeth y Gwasanaeth (Gwasanaethau Canolog);
- bydd y Cyfarwyddwr Cysylltiadau Myfyrwyr, Uwch Diwtor, Uwch Warden neu Bennaeth Gwasanaethau Canolog yn sicrhau yr anfonir [y Ffurflen Monitro Aflonyddu Myfyrwyr](#) at Gwenan Hine (Pennaeth Cydymffurfio) yn y Swyddfa Gynllunio fel y gall y brifysgol fonitro digwyddiadau o aflonyddu a adroddir.

Gall Maria Lorenzini, Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr, gynghori'r ysgolion a'r gwasanaethau ar weithredu'r polisi hwn yn ôl yr angen. (01248 383543; m.lorenzini@bangor.ac.uk).